# YMGYRCH CYMRU

**CYLCHLYTHYR AELODAU CND CYMRU** Rhif 11 ION./CHWEF./MAWRTH **(Copïau ychwanegol 15c)**

# GOSOD HEDDWCH AR YR AGENDA WLEIDYDDOL

*— Neges y Flwyddyn Newydd oddi wrth Rhodri Glyn Thomas, cadeirydd CND Cymru*

**Rhaid i wleidyddion ac arweinwyr cyhoeddus yng Nghymru sicrhau fod Prydain yn chwarae rhan adeiladol yn yr ymgyrch dros heddwch yn 1989.**

Canolbwyntir ymgyrchoedd CND Cymru eleni ar y thema 'Cymru Ddi-niwclear mewn Ewrop Ddi-niwclear'. Mae'r mudiad — a gefnogir gan 100 o grwpiau heddwch lleol a 100 o fudiadau cysylltiol — yn credu fod cefnogaeth gyhoeddus frws dros ddechrau o'r newydd yn Ewrop.

Yn y gwanwyn, bydd Mrs Thatcher a'i chyngheiriaid gwleidyddol yn dathlu 40fed pen-blwydd NATO (North Atlantic Treaty Organisation). Am ddeugain mlynedd esgorodd arfau niwclear nid ar heddwch yn Ewrop ond ar ryfel oer; rhyfel oer sy'n cadw miliynau o ddynion arfog wedi'u rhewi'n ymosodol ar draws y cyfandir.

**Mae'n dechrau meirioli,** ac mae pobloedd Ewrop — dwyrain a gorllewin — yn awyddus am yr heddwch a ddaw ag Ewrop newydd i fodolaeth yn ei sgïl.

Yn CND, edrychwn i'r dyfodol yn hytrach nag i'r gorffennol. Dymunwn ddatblygu rhagolwg am wir heddwch yn Ewrop.

Dangosodd y gynhadledd ddiweddar ym Mharis fod awydd rhyngwladol yn bodoli i wared y byd o arfau cemegol. mae angen yr un awydd arnom rwan i gael gwared ag arfau niwclear.

Mae gan Brydain ei rhan i chwarae. Mae'n bryd i Mrs Thatcher ddangos parodrwydd i drafod diarfogi niwclear ym Mhrydain yn hytrach nag ymestyn ein harfogaeth eto trwy wario £10 miliwn ar sustem Trident.

Mae dyletswydd ar Aelodau Seneddol Cymru ac arweinwyr eglwysig a chyhoeddus i bwyso ar y llywodraeth i gymryd camau pendant dros heddwch; bydd CND Cymru yn gweithio i wneud hynny.


Bwriada CND Cymru sicrhau fod heddwch ar yr agenda ymhob un o'r tri etholiad sydd i'w cynnal yn hanner cyntaf 1989.

**Trefnir fforwm ar amddiffyn a pholisi tramor** cyn yr is-etholiad ym Mhontypridd pryd y gofynnir i'r ymgeiswyr ddangos eu cefnogaeth i Ewrop ddi-niwclear.

Yn yr etholiadau sirol ym Mai gofynnir i'r ymgeiswyr ddangos eu cefnogaeth i barhad statws 'ddi-niwclear' yr wyth cyngor sir Cymreig.

Ac yn yr etholiadau i senedd Ewrop, bydd CND Cymru yn ceisio cydsyniad ymgeiswyr yr wrth-bleidiau a datganiad yn cefnogi camau diffuant i wared Ewrop o arfau niwclear.

**Ni yn y mudiad heddwch sydd â'r weledigaeth am ddyfodol heddychlon, am ddyfodol pryd y defnyddir ein hadnoddau i ddiwallu anghenion dynol yn hytrach na'u hafradu ar beiriannau a all ddinistrio'r byd.**



*Wrth i'r llong danfor HMS Tireless ymweld â dociau Caerdydd ar Ionawr 28, roedd protestwyr gwrth-niwcliar yno'n creu gwarchae ac yn gwrthdystio tu allan i'r giatiau. Cafodd tri eu harestio a'u dal gan yr heddlu am dri diwrnod. Cyhuddwyd Peter Burt, Henrietta Miller a Joe Harris o "Ymddygiad tebygol o darfu ar yr heddwch". Tynnodd y brotest sylw at bresenoldeb llongau tanfor niwcliar mewn sir ddi-niwcliar; ac yn dilyn pwysau gan CND fe ysgrifennodd Cyngor De Morgannwg i'r Llynges Brydeinig i ail ystyried eu cynlluniau argyfwng.*

## *Newyddion*

Er gwaethaf saith o gyhuddiadau o ddifrod troseddol yn dilyn peintio cysgodion Hiroshima, fe gafwyd Bob Cole yn ddi-euog yn Llys Ynadon Blaenau Ffestiniog. Buddugoliaeth i synnwyr cyffredin, neu a oes dimensiwn Cymreig yn ymlusgo i mewn i gyfiawnder Prydeinig?

Fe gododd cangen Merched y Wawr Parc, ger Y Bala, £140 tuag at yr apêl cyflog, mewn noson goffi yn ddiweddar. Llongyfarchiadau a diolch yn fawr iawn. Beth am wneud rhywbeth tebyg yn eich grŵp chi?

Rhywun am Latfia?
Mae Bridget Rendell, aelod o CND Cymru, yn trefnu taith feicio yn yr Undeb Sofietaidd. Oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â hi? Ei chyfeiriad yw Maesgwm, Llangurig, Powys.

**Dewch i Abertawe ar 25 Chwefror ar gyfer Gŵyl 'Cymru Ddi-niwclear mewn Ewrop Ddi-niwclear'.**

**Adloniant, siaradwyr, stondinau, bwyd a diwrnod arbennig i bawb. Gweler y daflen y tu mewn.**

# NATO: Ein ffin amddiffyn gyntaf ynteu bygythiad sylweddol i heddwch y byd?

Yn ystod y chwe degau daeth gwaith arloesol CND ag ymwybyddiaeth i'r cyhoedd o natur ac ansawdd arfau niwclear. Ar drothwy'r naw degau, rhaid i CND roi sialens i orthodocsi gwleidyddol a milwrol sy'n gweld y sustem bloc fel nodwedd parhaol yn Ewrop a gwrthwynebu milwrol fel peth anorfod. Tyfodd NATO yn rhwystr mawr i ddiarfogi o ddifrif a rhaid i'r mudiad heddwch gynnig dimensiwn beirniadol i wrthsefyll yr ymarferion cyhoeddus hawdd a thwyllodrus fydd ar droed eleni wrth ddathlu'r deugeinfed pen-blwydd.

### Taflegrau Cruise yn ôl?

'Rydym newydd weld datganiad gan NATO yn cefnogi rhaglen o 'foderneiddio', gyda phwysau trwm yn cael eu rhoi ar wledydd fel Gwlad Belg oedd wedi gwneud yn glir ei hamheuon difrifol ynghylch hyn ac eto yn gorfod ildio. Fel ym Mhrydain, ymddengys mai'r cudyllod sy'n ben. Mewn gwirionedd, ymgais i fynd yn wrthgefn i'r cytundeb INF yw'r penderfyniadau parthed moderneiddio. Cyn i hwnnw gael ei lofnodi hyd yn oed, trodd NATO i ystyried y cwestiwn o sut i ddal ymlaen â'r polisïau o ymateb hyblyg drwy newid yr arfogaeth filwrol. Sieryd yn awr am 'weinyddu'r amgylchfyd ôl-INF'. I'r rhai a fyn ddehongliad, golyga hyn ganfod dulliau eraill o weithredu rhagor na'r taflegrau canolig o'r tir, a hynny trwy ychwanegu at, a datblygu, taflegrau o'r awyr a'r môr gyda'r un cyraeddiadau. Erbyn canol y naw degau bydd y taflegrau niwclear a ddiddymwyd o'r rhai Cruise yn ôl yn Ewrop. Mae Holy Loch yn arbennig arwyddocaol yn y cyswllt yma. Un dull o 'lenwi'r bwlch' fyddai cynyddu'r drefniadaeth Ewropeaidd o daflegrau Cruise i'w lansio o'r môr a bu trafod o ddifrif ar hyn. Awgrymwyd, serch hynny, mai maen tramgwydd i hyn yw cyndynrwydd llynges U.D.A. i ildio'r hawl parthed targedu'r taflegrau hyn. Gan fod Holy Loch wedi'i sefydlu drwy gytundeb o'r naill ochr ac o dan reolaeth uniongyrchol llynges U.D.A., golyga leoliad Cruise Ewropeaidd o dan reolaeth uniongyrchol U.D.A.

### Yn wyneb diarfogi

Y tebygrwydd fydd i NATO ffafrio polisi o ddod â mwy a mwy o awyrennau â photensial niwclear a'u harfogi â thaflegrau 'gwrthsafiad' newydd. Mae hyn yn hollol groes i feddylfryd y cyhoedd fod cynnydd cyson ar droed parthed camu ymlaen at ddiarfogi, a thanlinella'r anawsterau enfawr sy'n sefyll ar ffordd diarfogi o ddifrif os na roddwn sialens i, a datgelu'r sefydliadau hynny sydd yn seilio eu bodolaeth ar gadw militariaeth yn fyw ac yn iach. Fel llawer o sefydliadau, nid oes gan NATO yr awydd lleiaf i newid ei ddulliau; mae ganddo ddiddordeb hunanol mewn cadw Ewrop yn ddau wersyll milwrol rhanedig. Daeth gwrthwynebiad milwrol yn ffordd o fyw ac ystyrir dod â hyn i ben fel bygythiad yn hytrach na chyfle.

Fis Ebrill eleni, mae'n siwr, fe'n llethir gan ymateb anfeirniadol y cyfryngau i ben blwydd NATO yn ddeugain oed. I CND y rhoddir y cyfrifoldeb o ofyn y cwestiynau arwyddocaol. Os yw NATO'n gwirioneddol ofni goresgyniad gan wledydd Cytundeb Warsaw, pam na wna ymdrech i noddi ymgais i sefydlu rhanbarthau diarfogiad militaraidd sylweddol yn Nwyrain a Gorllewin Ewrop? Trafodwyd cynigion o'r fath yn ystod y pum degau. Gadewch i ni ddod â hwy i'r wyneb eto. Buasent yn sicr yn gwneud goresgyniad milwrol dirybudd yn anodd. Os mai esgus NATO dros 'foderneiddio' yw fod gwledydd Cytundeb Warsaw yn gwneud yn union yr un peth, pam na cheisia gael gwaharddiad cyfatebol? Rhaid inni roi sialens i strategaeth bresennol NATO drwy gynnig dulliau eraill adeiladol.

**Isobel Lindsay (CND Yr Alban)**

Dewch i Gynhadledd Flynyddol CND Cymru yn Aberystwyth ar 11 Mawrth i wrando ar Isobel Lindsay.

YMGYRCHU

## NOW

Yn ystod mis Mawrth bydd nifer o bobl yn cerdded o Gaerdydd i Lundain. Fe gymer y daith ryw bedwar diwrnod ar ddeg i'w chwblhau, a bwriedir cyrraedd Llundain i ymuno â Gwrthdystiad Prydeinig CND ar 2 Ebrill. Bydd deiseb (sy'n galw ar i'r Llywodraeth gydnabod a pharchu statws ddi-niwclear Cymru) yn cael ei chyflwyno yn y Swyddfa Gymreig ac yn Stryd Downing.

Anfonir copi o'r ddeiseb i'r holl grwpiau CND. Gofynnnwn i bawb wneud ffotocopïau a llenwi cymaint ohonynt â phosibl. Os yw'r daith i fod yr un mor llwyddiannus â'r un i Aldermaston, rhaid cael cefnogaeth mewn nifer o bethau.

1. Cerddwyr: Bwriadwn gael rhwng 20 a 30 o gerddwyr. Mae cyfle o hyd i chi roi eich enwau, ond gwnewch hynny mewn da bryd rhag cael eich siomi.
2. Llofnodion i'r ddeiseb: Mae angen cymaint ag sy'n bosib o'ch help chi i'w cael.
3. Cerbydau a gyrwyr: Mae angen nifer o gerbydau a gyrwyr i sicrhau diogelwch a chefnogaeth ar hyd neu am ran o'r daith.
4. Arian: Er mwyn trefnu rhywbeth fel hyn mae angen swm sylweddol o arian NAWR, felly cefnogwch cyn gynted ag sy'n bosib.

Am wybodaeth cysylltwch â Henrietta (0267) 87411. Rhoddion a sieciau i NOW (Nukes Out Of Wales) CAMPAIGN, Waun Lwyd, Esgair, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin, Dyfed.

# CYNLLUN CYMREIG RHYFEL NIWCLEAR

## £1½ miliwn y flwyddyn... 60 trefnydd rhyfel llawn amser... pennu ysgolion i gadw'r meirw... miloedd o gyrff

Cafwyd ymateb annisgwyl yn dilyn datgeliad HTV o ddulliau'r Cynghorau Sir yng Nghymru o ymateb i'w dyletswyddau statudol i baratoi CYNLLUNIAU RHYFEL. Yn y rhaglen 'Wales This Week', rhoddwyd sylw i'r dulliau a fabwysiadwyd gan Gynghorau Dyfed a Gorllewin Morgannwg. Ddeuddydd ar ôl darlledu'r rhaglen, roedd aelodau Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd Gorllewin Morgannwg yn eu llongyfarch eu hunain ar eu perfformiad ar y teledu yn ogystal â symud ymlaen, heb drafod yn y Cyngor llawn, i sicrhau byncar i'r Sir. Cadeirydd y pwyllgor oedd Frank Evans, y Cynghorydd a ymddangosai ar y rhaglen yn feirniadol o'r Cynlluniau Amddiffyn Sifil.

Ym Mhwyllgor Diogelu'r Cyhoedd Dyfed mynegwyd pryder gan yr aelodau am y dull y bu i'r aelodau ymdrin â'r mater, ac yn arbennig i'r ffaith i'w cynlluniau fod mor gyfrinachol. Pleidleisiwyd i gael archwiliad cyhoeddus. Cam bychan i'r cyfeiriad iawn, yn adlewyrchu mor sensitif yw cynghorwyr i'w delwedd gyhoeddus.

Mae'r neges yn glir. Mae'n rhaid i CND Cymru fod yn wyliadwrus ac yn ddyfal yn eu dulliau o ddarganfod a rhoddi cyhoeddusrwydd i ddulliau'r cynghorau o baratoi Cynllun Rhyfel.

Y cam nesaf (ar gyfer 1 Ebrill, 1989) fydd:

1. Ricriwtio gwirfoddolwyr a mudiadau gwirfoddol;
2. Trwsio a chlirio eiddo yn dilyn ymosodiad;
3. Achub pobl o eiddo sydd wedi ei ddifrodi.

**Cyfle i ymgyrchu**

Mae cyfle i ymgyrchu yma:

Mae nifer o gynghorau lleol yn ei chael yn anodd eisoes i gynnal a chadw ei stoc dai, felly sut mae disgwyl iddynt drwsio eiddo ar ôl Rhyfel Niwclear?

Beth ydy agwedd y frigâd dân yn ogystal â gwasanaethau achub eraill i'w rôl yn ystod Rhyfel Niwclear?

Ydy'r gwirfoddolwyr a'r mudiadau gwirfoddol, megis WRVS, yn llawn ddeall pa mor wahanol fyddai'r amgylchiadau yn dilyn rhyfel niwlear, a'r rhai yn ystod ac yn dilyn y ddau ryfel byd diwethaf?

Mae llawer y dylem ni ei holi wrth ein cynghorwyr lleol, ac y dylent hwy ei holi wrth lywodraeth ganolog. Mae yma hefyd gyfle euraid i gynghorau egluro wrth y cyhoedd pam y bu iddynt alw eu hunain yn Ardaloedd Di-niwclear. Ond a fydd cynghorau'n manteisio ar y cyfle? Yn ymarferol, fe ddigwydd yn unig os bydd aelodau CND yn parhau i gymryd diddordeb gweithredol yng Nghynlluniau Amddiffyn Sifil eu cynghorau, a gwneud beth fyth ag y gallont i ddwyn y pwnc i sylw'r cyhoedd.

**Sue Pester**

Gall grwpiau, neu unigolion, na welodd raglen 'Wales This Week' fenthyca copi fideo ohoni. Cysylltwch â: Sue Pester, Llanbedr Pont Steffan neu James Stewart 0222 832275.




*Medi 1988 ar ôl i Rowena Thomas (blaen) dderbyn warant ymaflyd.*
*September 1988 after Rowena Thomas had received a distraint warrant.*

# Un o Gefnogwyr Cymreig Amlyca'r Belen Eira

Fel y gŵyr llawer ohonoch mae Rowena Thomas o Fwlch-gwyn, Clwyd wedi bod yn un o gefnogwyr diflino yr ymgyrch yn erbyn y gwaith puro wraniwm yn Capenhurst (sydd yn Lloegr ac yn union dros y ffin â Chlwyd)

Mae hi wedi torri gwifrau nifer fawr o weithiau ac wedi bod yng ngharchar am dair wythnos am wrthod talu dirwy, am achosi yr hyn a elwir yn 'ddifrod troseddol'.

Dyma'i sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â'r gyfraith:

Torrodd wifrau yn ystod Ebrill 1988.

Mis Mehefin 1988 fe'i dirwywyd £100, gyda £48 o gostau, a £12.28 o iawndal gan Lys Ynadon Caer, pan ddywedodd "Does gen i ddim bwriad o gwbl i dalu'r ddirwy. Do, fe es i a nifer o ferched yn fwriadol i dorri'r gwifrau, ond mewn cymhariaeth â'r difrod yn Hiroshima a Nagasaki, nid oedd yr hyn a wnes i yn drosedd. Mae arfau niwclear yn anghyfreithlon, anfoesol ac yn drosedd yn erbyn y ddynoliaeth".

Ym Medi 1988 gwnaed 'gwarant atafaelu' gan Lys Ynadon Wrecsam. Yn ystod y ddau fis canlynol derbyniodd lythyrau bygythiol, a galwadau ffôn a oedd yn honni y byddai'r beiliaid yn dod i'w thŷ unrhyw ddiwrnod. Mae'n amlwg mai tacteg i'w dychryn oedd hyn gan ei bod yn siwr y gwyddent iddi ysgrifennu llythyr yn trosglwyddo popeth o'i heiddo i'w dau fab. Erbyn diwedd Tachwedd nid oedd dim wedi digwydd, ac fe anfonodd y mab hynaf lythyr i'r llys ynadon i'w hatgoffa fod y tŷ a'i gynnwys yn eiddo iddo ef a'i frawd, ac os y dygid unrhyw beth oddi yno neu ped achosid unrhyw ddifrod, y byddai ef yn cymryd camau cyfreithiol.

Ar ôl hyn cawsant lythyr gan y beiliaid yn dweud fod y warant yn cael ei dychwelyd i Lys yr Ynadon, a dyna yw'r sefyllfa ddiweddaraf.

Ychydig iawn ohonom sydd â'r dewrder a'r dyfalbarhad i wneud yr hyn a wnaeth Rowena, ac nid oes amheuaeth fod y Mudiad Heddwch mewn dyled enfawr i'r nifer bychan sy'n mynd i'r eithafion yma i sefyllfa dros yr hyn y maent yn ei gredu.

DIOLCH YN FAWR ROWENA!

Rhoda Jones

## TORRWCH Y GADWYN NIWCLEAR GWRTHDYSTIAD YN B.N.F.L., CAPENHURST, 22 EBRILL

Rhagrybudd yw hwn i'ch gwahodd i gymryd rhan mewn gwrthdystiad ar 22 Ebrill yn B.N.F.L., Cilgwri, ac i gofio am Chernobyl. Mae Capenhurst yn trin wraniwm i'w gyfoethogi gogyfer â Trident, ac yn defnyddio wraniwm o Namibia yn groes i benderfyniad y Cenhedloedd Unedig, ac o'r herwydd yn cefnogi cyfundren lem o apartheid yn Namibia, yn cynnal gwaith sifil i gyfoethogi wraniwm, ac felly'n cyfrannu'n sylweddol tuag at lygredd lleol. Yn ystod y chwe blynedd diwethaf bu llawer o weithredu lleol ac o wrthdystiadau, ond yn awr, anogwn bobl i ymuno mewn gweithredu cenedlaethol yno.

Y weithred a awgrymir gan yr N.V.D.A. yw llunio 'cadwyn ddynol' o amgylch y gwaith. Yn ogystal, croesewir rhai eraill sy'n dymuno gweithredu mewn gwahanol ffyrdd, ond cofier — gweithredu cyfan gwbl ddi-drais yw'r rheol. Gwahoddir siaradwyr adnabyddus. Cynhelir gwasanaeth Cristnogol; bydd y gât ogledd-orllewinol ar gyfer merched yn unig; bydd gwylnos wrth bob mynedfa; darperir meithrinfa a thoiledau. Gobeithiwn y bydd y gwrthdystiad yn debyg i;r un yn Corsham yng ngwanwyn 1988.

Trefnir y digwyddiad hwn gan grŵp o'r enw 'Capenhurst Watch' — grŵp a ffurfiwyd o'r 'Capenhurst Snowball Group'. Mae hwn yn grŵp sy'n trefnu amrywiaeth eang o weithgareddau yn Capenhurst.

Os ydych yn dymuno derbyn pecyn gwybodaeth, ysgrifennwch at 'Capenhurst Watch', d/o Merseyside C.N.D., 24 Hardman Street, Lerpwl L1 9AX. (Amgaewch amlen a stamp os yn bosib.) Yn ogystal, pe dymunid, gellir anfon cyfraniadau ariannol tuag at y gwrthdystiad hwn i'r un cyfeiriad. Dylid gwneud sieciau yn daladwy i 'Peace Lobby'.



**Peace Shop**

**56 MACKINTOSH PLACE, ROATH, CARDIFF**
**Tel: 489260**

*Postcards, Greetings Cards, Posters, Jewellery, T-Shirts, Traidcraft Coffee, Badges, Stickers, New Mugs*
Open 10.00 a.m. to 5.00 p.m. Tuesday to Saturday

The only outlet in Wales for UNICEF (United Children's Fund) Products.

REGULAR SATURDAY STALL IN HAYES

# CND CYMRU YN YMCHWILIAD HINKLEY

*Tachwedd 22 a 23, 1988.*

Ar Dachwedd 23, roedd Dr John Cox yng Nghaerdydd i gyflwyno Datganiad Achos CND Cymru ac i holi'r BCCT (CEGB) ar ein rhan.

Mae'r isod yn dangos mor effeithiol oedd ei gyflwyniad.

*DR. COX:* Mae CND Cymru yn ymddangos yn yr ymchwiliad hwn i wrthwynebu'r cais i adeiladu PWR newydd yn Hinkley Point. Gwrthwynebwn yn bennaf gan y bydd yr adweithydd yn cynhyrchu plwtoniwm a fydd yn debygol o gael ei ddefnyddio, neu y gellid ei ddefnyddio, ar gyfer cynhyrchu arfau niwclear.

Fodd bynnag, hoffem gysylltu CND Cymru â'r gwrthwynebiad a fynegwyd ar sail diogelwch, ystyriaethau economaidd, llygredd a'r bygythiad i gymunedau yng Nghymru.

Er nad wyf yn siarad Cymraeg fy hun, hoffwn ddweud bod CND Cymru, gyda'u hadnoddau prin, yn darparu gwell cyfleusterau cyfieithu yn rheolaidd yn ein Cynhadledd Flynyddol nag a geir yma, er gwaethaf yr holl filoedd o bunnoedd sydd at wasanaeth yr ymchwiliad hwn. (Cymeradwyaeth).

Yn wahanol i lawer o'r gwrthwynebwyr, nid oes gennyf wrthwynebiad egwyddorol i ynni niwcliar. Yn wir, yn ystod y pumdegau, bûm yn cefnogi'r mudiad, 'Atoms for Peace'. Ymunodd nifer o'm cyfeillion coleg â'r BCCT yn nyddiau cynnar y diwydiant niwcliar a digwydd yn unig oedd imi beidio ag ymuno fy hun.

Wrth dynnu at derfyn fy nhraethawd Doethuriaeth ar drawsgludiad gwres yn 1961, ceisiais am swydd gyda'r BCCT. Yn y cyfweliad, trafodwyd yn agored y ffaith y byddai adweithyddion niwcliar y BCCT yn cynhyrchu plwtoniwm at ddefnydd milwrol. Go brin y gall unrhyw un o'm cenhedlaeth i a ymunodd a'r BCCT bryd hynny fod mewn unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r peth. (Cymeradwyaeth)

Mae Datganiad Achos CND Cymru yn cyfeirio at yr effeithiau ar y amgylchedd o ryfel niwclear, a'r pentwr arfau niwcliar presennol y byd.

Bydd adweithydd arfaethedig Hinkley Point C yn cynhyrchu plwtoniwm a ellid, wedi'i ailbrosesu, ei ddefnyddio ar gyfer mwy o arfau dinistriol. Ni chafodd y llywodraeth awdurdod gan y cyhoedd i gynyddu'r cyflenwad o arfau niwclear. Yn wir, dywed ei fod yn croesawu camau tuag at ddiarfogi.

Cred CND Cymru mai prif bwrpas atomfa Hinkley Point C fyddai cynhyrchu plwtoniwm, naill ai i'w ddefnyddio ar gyfer arfau neu i ryddhau plwtoniwm arall i'w ddefnyddio i'r pwrpas hwnnw.

Gan gadw mewn cof datganiadau diweddar y BCCT, bwriadwn alw ar dystion arbenigol i ategu'r hyn a ddywedwn. Ar y funud, cyfeiriaf yn unig at ateb Lord Hinton (a ailadroddwyd gan y BCCT ddoe) i'r gosodiad canlynol:

*"Ni ddefnyddiwyd unrhyw blwtoniwm a gynhyrchwyd yn adweithyddion y BCCT ar gyfer arfau ym Mhrydain nac yn unman arall..."*

Atebodd Lord Hinton, cyn Gadeirydd y BCCT:



*"Rwyf yn berffaith sicr bod y gosodiad hwn yn anghywir... Mae'r gosodiad cyfan yn warthus... Mae'n bwysig nad ydyn nhw'n dweud blydi celwyddau yn eu tystiolaeth." (Cymeradwyaeth)*

Wedi iddo gyflwyno'r Datganiad Achos, cafodd John Cox ganiatâd yr Arolygwr i holi tystion y BCCT.

*DR. COX:* Yn gyntaf, hoffwn wybod a oes rhywun o blith tystion y BCCT yn adnabod Lord Hinton.

*YR AROLYGWR:* Mae tri ohonynt yn ei adnabod.

*DR. COX:* Hoffwn wybod a ydych yn teimlo bod Lord Hinton o gwmpas ei bethau pan oedd yn gyfrifol am y BCCT.

*YR AROLYGWR:* Mae Mr Goddard yn aelod o'r Bwrdd.

*MR GODDARD:* Nid wyf yn aelod o'r Bwrdd ac nid oeddwn yn adnabod Lord Hinton yn dda. Ond roeddwn yn ei adnabod. Hoffwn ddweud bod mater y defnydd a wneir o blwtoniwm wedi'i drafod yn drwyadl yn ymchwiliad Sizewell. Trafodwyd y sylwadau a wnaed yma gan gynnwys y dyfyniad o eiriau Lord Hinton. Roedd y dyfyniad yn destun tystiolaeth ac yn destun llawer o groesholi. Dyfynnaf o'r *Layfield Report*, Cyfrol 7, Adran 8, Casgliadau. Dyma'r casgliad cyntaf:

Penderfynaf, am y rhesymau a gofnodir isod, na ddylid gwrthod caniatâd ar gyfer Sizewell B oherwydd y canlyniadau o gynhyrchu plwtoniwm a awgrymwyd gan wrthwynebwyr.

*YR AROLYGWR:* Mae'r dyfyniad enwog o eiriau Lord Hinton yn ymddangos yn y bennod gyntaf honno, rwy'n credu?

*MR GODDARD:* Ydi, rwy'n credu.

*DR. COX:* Hoffwn i ddim swnio fel Robin Day ond wnewch chi ateb y cwestiwn? Oedd Lord Hinton o gwmpas ei bethau, yn eich barn chi?

*MR GODDARD:* Roedd Lord Hinton yn ffisegydd niwclear ac yn wyddonydd enwog.

*DR. COX:* Felly, byddai'n gwybod a ddefnyddid y plwtoniwm i bwrpas milwrol ai peidio.

*MR GODDARD:* Os cofiaf yn iawn, daw'r dyfyniad o rywbeth a recordiwyd ac a gynhyrchwyd beth amser wedi'i farwolaeth a chymerwyd hynny i ystyriaeth.

*DR. COX:*Ond roedd yn fyw pan ddywedodd y geiriau. (Cymeradwyaeth)

*MR GODDARD:* Wrth gwrs. Ond chynhyrchwyd mohonynt cyn ei farwolaeth.

*DR COX:* Ydych chi'n awgrymu iddo ddweud rhywbeth nad oedd yn wir?

*MR GODDARD:* Nac ydw, ddim o gwbl. Ond yna anffodus, ni chawn gyfle i siarad ag ef am y cyd-destun nac i holi beth oedd yn ei feddwl er mwyn iddo gael egluro. Dyna fy mhwynt i.

*DR. COX:* Mi af ar drywydd arall rwan. Oes rhai o dystion y BCCT yn adnabod Lord Marshall?

*MR GODDARD:* Ydw.

*DR. COX:* Beth am y dyfyniad hwn gan Lord Marshall?

*"Dywedais bod plwtoniwm a gynhyrchwyd yn nyddiau cynnar gorsafoedd niwclear cyntaf y BCCT wedi'i ddefnyddio i bwrpas amddiffyn"*

Daw'r dyfyniad o lythyr i'r Times, Mehefin 6, 1986, Ydi Lord Marshall o gwmpas ei bethau?

*MR GODDARD:* Ydi.

DR. COX: Aeth yn ei flaen:

*"Mae'n hollol amlwg, a bu'n amlwg erioed, i'r plwtoniwm a gyfnewidiodd y llywodraeth, trwy gytundeb amddiffyn, am iwraniwm a gyfoethogwyd o U.D.A. ddod o gyflenwad milwrol."*

Daw hyn o'r un llythyr. Ydi o'n wir o hyd?

*MR GODDARD:* Mae gen i ryw gof o'r llythyr, oes.

*DR. COX:* Yn amlwg, felly, rhaid imi ofyn sut medrwch chi gysoni dau osodiad yr Arglwyddi, a'r gosodiad na ddefnyddiwyd plwtoniwm a gynhyrchwyd yn adweithyddion y BCCT erioed ar gyfer arfau ym Mhrydain nac unman arall?

*MR GODDARD:* Wel, syr, efallai y caf ddarllen eto o Layfield. Rwy'n darllen...

*DR. COX:* Na. Hoffwn gael eich ateb chi. Fe wyddwn ateb Layfield.

**Ac ymlaen ac ymlaen. Gall darllenwyr Ymgyrch Cymru ffurfio'u barn eu hunain!**

# HINKLEY — ACHOS Y CEGB AR CHWÂL

Gan fod ymchwiliad Hinkley Point ar fin symud ymlaen i'r ail bwnc sef diogelwch, cystal fyddai inni fwrw golwg ar achos tila'r CEGB ar y pwnc.
Tipyn yn nawddogol a ffroenuchel oedd eu hagwedd ar ddechrau'r ymchwiliad, ac yn amlwg yn awyddus iawn i gael pen ar yr ymchwiliad cyn gysted â phosibl, ond daethant ar draws nifer o bethau i'w harafu. Mynnodd un arolygwr gael gwybod gwir gymhariaeth y gost o gael trydan o orsaf lo, â'r gost o orsaf niwclear. Roedd yno hefyd gynrychiolaeth gref o'r awdurdodau lleol (COLA), a nifer o unigolion yn cynrychioli croesdoriad eang o'r gymdeithas.
Cafwyd dwy sesiwn boeth yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd, pan roddwyd rhybudd i'r Adran dros Ynni nad oedd pobl Cymru am fwy o orsafoedd niwclear. Buom hefyd yn gwrthwynebu'r bwriad i gael PWR yn Sizewell yn Lloegr. Daeth nifer o bobl oedd wedi dioddef o effaith damwain Chernobyl i lawr i Gaerdydd i roi tystiolaeth, ac fe'u cynrychiolwyd yn wych gan CADNO, Meirionnydd. Tawedog oedd ymateb y CEGB i'r dystiolaeth gan ffermwr gyda 3,000 bequerel o caesium 137 yn ei gorff, a hynny o ddamwain oedd wedi digwydd 2,000 o filltiroedd i ffwrdd.
Pan gyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Rhagfyr y cynllun i breifateiddio'r diwydiant trydan, cyfaddefodd y CEGB y buasai'r trydan o orsaf Hinkley yn costio 13% yn fwy na phe bai'n dod o orsaf lo, a hynny am elw o 10% yn unig.
Mae'r dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg gan WANA yn dangos mai buddsoddiad sâl iawn yw PWR Westinghouse.
Yn ôl tystiolaeth o Ddenmarc, buasai melinau gwynt yng Nghymru yn cyflenwi'r angen, ac yn gwneud i ffwrdd â'r angen am PWR newydd yn Hinkley. Cafwyd tystiolaeth i gadarnhau hyn gan Dr Swift Hook, cyn-bennaeth y CEGB ar Ynni o'r Gwynt. Dywedodd ef fod galw ychwanegol am 1000 MW o drydan pan fydd y tywydd yn arw a gwyntog, a hynny'n bennaf oherwydd fod y gwynt yn oeri adeiladau. Byddai twrbein gwynt yn gallu cyflenwi'r galw ychwanegol hwn am drydan ar dywydd gwyntog, yn rhad. Yn naturiol buasent yn segur yn ystod tywydd tawel, ond mae dadl gref dros eu cael i gymryd lle'r twrbeins nwy drud presennol.
Credai Syr Frank Layfield y byddai Sizewell yn gymharol saff, ac y byddai'r elw i'r 'genedl' yn pwyso'n drymach na'r elfen o risg i'r gymuned leol. Gwyddom erbyn hyn nad yw'r ddadl economaidd yn dal dŵr, ond er hyn bydd disgwyl inni dalu'r Dreth Niwclear. Diddorol fydd dilyn hanes achos Hinkley Point yn y misoedd nesaf.

# Yn ariannol iach...

Drwy fawr ymdrechion ein trysorydd, Maggie Verrinder, mae CND Cymru yn ariannol iach ar ddechrau 1989.
Mae incwm a chostau wedi cynyddu. Mae'n haelodaeth unigol yn dal ei dir a deil sefydliadau cysylltiol i'n cefnogi.

# ...ond...

Fel bob amser, mae angen mwy o aelodau arnom, ac fel y pallodd gweithrediadau gan grwpiau mewn rhai mannau yng Nghymru, hyderir y gellir recriwtio rhai miloedd o gefnogwyr CND a fu efallai yn y gorffennol yn aelodau o grwpiau lleol, i'n rhengoedd yn CND Cymru.
Cychwynnodd ein Gweithiwr Ymgyrchoedd, James Stewart, ar ei waith yn ardderchog, ond mae'n rhaid talu cyflog iddo!
Hefyd 'rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i roi amgenach gwasanaeth i'n haelodau a hoffem allu gyrru mwy na'r 4 neu 5 argraffiad o Ymgyrch Cymru a anfonir atynt bob blwyddyn; ond golyga hyn eto wario. Yn y rhifyn nesaf o Ymgyrch Cymru wedi'r Gynhadledd Flynyddol, gobeithir gallu gwneud datganiad ariannol manwl fel y bydd yn hysbys sut mae'r arian yn cael ei wario.

# ...ymlaen â'r codi arian!

Gwnaeth llawer o'r grwpiau heddwch drefniadau gogyfer â chodi arian o gwmpas y Nadolig. Cawsom air gan ryw ychydig ohonynt a hyderir y bydd i'r adroddiadau byrion hyn ysbrydoli cymaint ag sy'n bosibl o grwpiau i wneud rhywbeth i godi arian i CND Cymru yn ystod Wythnos Cymru Ddi-niwclear (20-25 Chwefror).
Cyn y nadolig bu Pobl Heddwch Tal-y-bont yn canu carolau yn y glaw trwm. O'r arian a gasglwyd gyrrwyd £35 i CND Cymru.
Cynhaliwyd parti Nadolig gan CND Treganna a Riverside gyda bandiau a bar, a gyrrwyd £70 i'r Apêl Gyflog.
'Roedd dros 100 o oedolion mewn parti Nadolig a gynhaliwyd gan CND Blaenau Ffestiniog. Am ei fod yn cael ei gynnal mewn gwesty lleol, gallai'r rhieni 'fwynhau' eu hunain tra difyrrid y plant gan sioe bypedau, clowniaid a chwaraeon. Cafwyd bwffe a gwrando ar grŵp canu gwerin lleol i goroni'r noson. 'Roedd yn llwyddiant mawr a gwnaethpwyd dros £80 o elw ar ôl tynnu'r costau o'r cyfanswm. O ganlyniad, penderfynwyd gwneud yr amgylchiad yn un blynyddol.
Trefnwyd stondin lwyddiannus gan CND Y Fenni yn y Ffair Nadolig Flynyddol dan nawdd Tools for Self Reliance a Greenpeace. Codwyd arian a chafodd neges CND gyhoeddusrwydd.
'Rydym yn galw ar bob grŵp i gynnal gweithgareddau codi arian yn ystod Wythnos Cymru Ddi-niwclear. Anerler at £100 — buasai hyn yn help mawr i gadw'r cyfrifon yn iach a rhoi help i gynnal yr ymgyrchoedd yn ystod y gwanwyn a'r haf.

# CYNHADLEDD FLYNYDDOL CND CYMRU

## Aberystwyth, 11 Mawrth 1989

Ceir lleoliad newydd i gynhadledd CND Cymru eleni a gobeithiwn ddenu amryw o grwpiau ac aelodau unigol i gymryd rhan.
Mae Aberystwyth yn fwy canolog na Llanbedr ac yn haws i'w gyrraedd gyda thrafnidiaeth gyhoeddus. Cynhelir y gynhadledd yn yr Hen Goleg, ar y ffrynt, ddydd Sadwrn, 11 Mawrth.
Y noson cynt (Nos Gwener, 10 Mawrth) mae grŵp CND Aberystwyth yn cynnal noson gymdeithasol yn y Neuadd Fawr ar gampws y prif goleg. Cynigir llety dros nos i unrhyw un sy'n dymuno cael cyfle i gyfarfod ag ymgyrchwyr eraill mewn awyrgylch llai ffurfiol nag awyrgylch y gynhadledd ei hun.
Bydd gan amryw o bobl oriau o daith i Aberystwyth ac o'r herwydd byddant yn awyddus i droi am adref yn syth bin ar derfyn y gynhadledd. Eleni, gobeithiwn y bydd rhai o'r cynadleddwyr hyn yn manteisio ar y cyfle i wneud penwythnos ohoni.
Yn y gynhadledd byddwn yn trafod 'Cymru ddi-niwclear mewn Ewrop ddi-niwclear' gyda'r cwestiwn ychwanegol: 'Beth yw dyfodol NATO?' Ymhlith y cynigion gerbron bydd cynnig o Flaenau Ffestiniog yn gwrthwynebu aelodaeth Prydain yng nghyghrair NATO a ffurfiwyd 40 mlynedd yn ôl.
Y siaradwraig wadd yn Aberystwyth fydd Isobel Lindsay. is-gadeirydd CND Yr Alban. Cafwyd cyfraniad ganddi hi mewn cyhoeddiad newydd ar NATO gan CND ac ysgrifennodd erthygl ar y pwnc ar gyfer y rhifyn yma o Ymgyrch Cymru.
Bydd grwpiau, wrth gwrs, yn derbyn manylion llawn am y gynhadledd, ond hoffem weld aelodau unigol yn cymryd rhan yn ein trafodaethau. Felly, dewch i'r Hen Goleg, Aberystwyth am 9.45 ddydd Sadwrn 11 Mawrth — neu cysylltwch ag Olwen Davies ar (0970) 611944 neu Shirley Tunley ar (0970) 828565 os hoffech lety dros nos.
Ffôniwch Veronica Wood, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, (0792) 206617 am fwy o fanylion ynglŷn â'r gynhadledd.
Gellir prynu'r cyhoeddiad *NATO — In or Out*, sylwadau'r Mudiad Heddwch ar Gynghrair Iwerydd, oddi wrth CND Publications, 22-24 Underwood St., Llundain N1 7JG (pris £3.20 yn cynnwys cludiad).

# *Hysbysebion, os gwelwch yn dda!*

Hoffem gael eich ffotograffau, cyfraniadau, llythyrau ac yn enwedig eich hysbysebion.
Rhestrir digwyddiadau CND am ddim, ond mae hysbysebion yn £15 am ⅛ tudalen, £25 am ¼ tudalen.
Anfonwch at Ymgyrch Cymru, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd, erbyn 10 Mawrth.
Argraffwyd gan Argraffwyr Eryri, Bethel, Caernarfon, Gwynedd.

# DYDDIADUR

**CHWEFROR**

**Sadwrn 25: Gŵyl Cymru Ddi-niwclear, Athrofa Gorllewin Morgannwg, Townhill, Abertawe (12-5pm). Trefnwyd gan CND Abertawe i godi arian i CND Cymru. Mynediad gyda rhaglen (£1, plant a'r di-waith 50c). Gweler y daflen amgaeedig.**

**MAWRTH**

**Mercher 1: Diwrnod o weithredu y tu allan i'r Sefydliad Arfau Atomig, Caerdydd. Ymgynnull y tu allan i'r swyddfeydd treth yn Rhodfa Tŷ Glas, Llanisien (10am); eistedd i lawr y tu allan i brif fynedfa'r SAA (11am-2pm). Mwy o fanylion oddi wrth Grŵp Gweithredu'r SAA, 110 Connaught Road, Caerdydd CF2 3PY.**

**Gwener 10: Noson Lawen cyn y Gynhadledd, Neuadd Fawr, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth (Penglais). Trefnwyd gan CND Aberystwyth sydd hefyd yn trefnu lleoedd i aros dros nos. Manylion oddi wrth Olwen Davies, 0970 611944.**

**Sadwrn 11: Cynhadledd Flynyddol CND Cymru, Yr Hen Goleg, Aberystwyth (ar y prom). "Cymru Ddi-niwclear mewn Ewrop Ddi-niwclear". Cofrestru o 9.45am, Cynhadledd yn agor 10.30am. Siaradwraig: Isobel Lindsay, is-gadeirydd CND Yr Alban. Mwy o fanylion gan Veronica Wood, 0792 206617.**

**Llun 20-Gwener 24: Ymchwiliad Hinkley Point yn dychwelyd i Gymru. Sesiwn gyntaf yn agor yn Neuadd Dinas Caerdydd am 2.30pm, sesiynau'r hwyr am 6.30pm. Unrhyw un sydd eisiau gwneud datganiad (yn Saesneg neu Gymraeg) neu holi'r CEGB, dylid sgrifennu i'r Hinkley Point Inquiry Seretariat, Church Street, Cannington, Bridgewater, Somerset TA 5 2HA. Manylion pellach oddi wrth WANA, Blwch Post 1, Llandrindod, Powys, LD1 5AA (0982) 4362.**

**EBRILL**

**Sadwrn 22: Torrwch y Gadwyn Niwcliar — gwrthdystiad yn Capenhurst, ffatri niwlear ger Caer, i nodi pen blwydd damwain Chernobyl. Gwrthdystwyr i wisgo placard sy'n dangos enw'r mudiad neu grŵp sy'n cael ei gynrychioli. Manylion oddi wrth Capenhurst Watch, c/o Merseyside CND, 24 Hardman Street, Lerpwl, L1 9AX.**

**FFURFLEN AELODAETH AR GYFER EICH FFRINDIAU**
**MEMBERSHIP FORM FOR YOUR FRIENDS**

Enw/Name .............................. Llythrennau bras/capital letters

Cyfeiriad/Address ..........................................

..........................................

Sir/County .............................. Côd Post/Postcode ........

**Membership/Tâl Aelodaeth**

| | |
|---|---|
| Oedolyn/Adult £9 | Cwpl/Couple £12 |
| Myfyriwr/Student £3 | Ieuenctid/Youth £1 |

Heb waith a phensiynwyr/Unwaged and pensioners £2

Dymunaf roi rhodd/I wish to make a donation £...
Am aelodaeth amgaeaf/For membership I enclose £...

Gwneler sieciau'n daladwy a danfoner i:/Make cheques payable and sent to:

*CND Cymru, 56 Bryn Aeron, Dyfnant, Abertawe/Swansea SA2 7UX*

# DIARY

**FEBRUARY**

**Saturday 25: Nuclear-free Wales Festival, West Glamorgan Institute, Townhill, Swansea (12-5pm). Organised by Swansea CND in aid of CND Cymru. Admission by programme (£1 — 50p unwaged and children). See leaflet for details.**
**Also Nuclear Free Wales Week fundraising events throughout Wales.**

**MARCH**

**Wednesday 1: St David's Day of Action at Atomic Weapons Establishment, Cardiff. Gather outside Inland Revenue offices, Tŷ Glas Ave., Llanisien (10am); sit down outside main gate of AWE (11am-2pm). More information from AWE Action Group, 110 Connaught Road, Cardiff CF2 3PY.**


**Friday 10: Pre-conference social evening, Great Hall, University College, Aberystwyth (Penglais). Organised by Aberystwyth CND who will also arrange overnight accommodation. More details from Olwen Davies, 0970 611944.**

**Saturday 11: CND Cymru annual conference, Old College, Aberystwyth (on the seafront). "Nuclear-free Wales in a Nuclear-free Europe — what future for NATO?". Registration from 9.45am; conference begins 10.30am. Guest speaker: Isobel Lindsay, vice-chair of Scottish CND. More information from Veronica Wood, 0792 206617.**

**Monday 20-Friday 24: Hinkley Point Public Inquiry returns to Cardiff. First session opens in Cardiff City Hall at 2.30pm. Evening session opens at 6.30pm. Anyone who wants to make a statement (in Welsh or English) or question the CEGB should write to the Hinkley Point Inquiry Secretariat, Church Street, Cannington, Bridgewater, Somerset TA5 2HA. More information from WANA, PO Box 1, Llandrindod, Powys LD1 5AA (09824 362).**

**APRIL**

**Saturday 22: Break the Nuclear Chain demonstration at Capenhurst nuclear plant near Chester to mark the anniversary of Chernobyl. Demonstrators asked to wear a placard stating which organisation (if any) they represent or belong to. More information from Capenhurst Watch, c/o Merseyside CND, 24 Hardman Street, Liverpool L1 9AX.**




## DYDD GŴYL DEWI
### DIWRNOD O WEITHREDU

Ar ddydd Mercher, 1 Mawrth, Dydd Gŵyl Dewi, gwahoddir torfeydd o bob rhan o Gymru i 'Eistedd i lawr dros heddwch'. Y man cynnull fydd y Sefydliad Arfau Atomig yng Nghaerdydd.

PAM YR SAA?

Mae'r SAA yng Nghaerdydd yn cynhyrchu 'warheads' ar gyfer arfau niwclear. Maent wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar raglen Trident y llywodraeth. Mae hyn er gwaetha'r ffaith fod y rhan helaethaf o bobl Cymru wedi pleidleisio yn gryf yn erbyn y llywodraeth hon a'i pholisïau niwclear, a phob un o'r wyth sir yng Nghymru wedi'u cyhoeddi eu hunain yn 'ddi-niwclear'.

Mae'r angen am welliannau ym meysydd iechyd, tai a thrafnidiaeth yng Nghymru yn amlwg. Serch hynny mae arian y gellid ei ddefnyddio i ddiwallu rhai o'r anghenion yma yn cael ei wastraffu ar arfau niwclear. Ar Ddydd Gŵyl Dewi fe fyddwn yn galw ar Gymru i fod yn wirioneddol 'ddi-niwclear' a chanolbwyntio'i sylw ar ddefnydd amgenach o'r holl gyfoeth sy'n cael ei gamddefnyddio yn yr SAA.

EISTEDDWCH I LAWR

Gweithred o anufudd-dod sifil, di-drais fydd hon ar Ddydd Gŵyl Dewi. Fe fyddwn yn eistedd y tu allan i'r SAA gan gau'r ffordd trwy'r brif fynedfa. Fe fyddwn yn cymryd safiad moesol cryf ac yn dangos ein bwriad i herio a tharfu ar gynlluniau'r llywodraeth. Mae hefyd yn weithred o dor-cyfraith a allai arwain at arestio ac ymddangosiad mewn llys.

Ond dim ond un rhan o'r gweithredu fydd yr eistedd. I'r rhai nad ydynt am dorri'r gyfraith yn fwriadol fe fyddwn yn creu cysylltiad symbolaidd rhwng yr SAA a'r swyddfeydd treth cyfagos er mwyn tynnu sylw at y ffyrdd y gallai arian sydd ar hyn o bryd yn cael ei wastraffu ar arfau niwclear gael ei wario ar ddibenion llawer mwy buddiol.

Fe fydd celloedd heddwch lleol yn dosbarthu taflenni i weithwyr y ffatri wrth iddynt gyrraedd eu gwaith. Fe fydd y taflenni yn eu hysbysu o'n cynlluniau a'n bwriadau di-drais, ac yn pwysleisio'r ymdrechion a wneir gan fudiadau heddwch lleol i ddarganfod defnydd amgenach i'r ffatri, y tu allan i'r maes milwrol. Mae Grŵp Gweithredu'r SAA, sydd yn trefnu'r digwyddiad yma, gyda chefnogaeth CND Cymru, wrthi ar hyn o bryd yn ymweld â grwpiau i'w cynorthwyo i baratoi at y diwrnod. Fe fydd stondin gwybodaeth a gweithdy yng Ngŵyl Cymru Ddi-niwclear yn Abertawe ar 25 Chwefror.

## SAINT DAVID'S DAY
### DAY OF ACTION

On St David's Day, Wednesday 1st March, a mass sit-down for peace and Wales will take place at the Atomic Weapons Establishment in Cardiff.

WHY THE AWE?

The AWE in Cardiff manufactures warheads for nuclear weapons, and is currently doing work for the Trident nuclear programme. However, at the last election the people of Wales voted resoundingly against the Government and its nuclear policies, and all eight counties in Wales hace declared themselves Nuclear Free Zones.

The need for improvements in health care, housing, and transport in Wales is acute, yet money which should be spent in these areas is being wasted on nuclear weapons. On St David's Day we will call for Wales to be truly nuclear-free, and focus attention on alternative uses for the wealth which is being misused at the AWE.

SIT DOWN!

The St David's Day action will be a non-violent act of civil disobedience — we will sit down outside the AWE and block access through its main gate. This is a powerful moral statement and shows our intention to defy and disrupt the Government's plans — but it is also against the law, and carries with it the risk of arrest and a court appearance.

As well as the sit-down, other activities will take place for people who do not wish to deliberately break the law. We will make a symbolic link between the AWE and the nearby Tax Offices to show how money being wasted on nuclear weapons could be spent usefully.

Local peace groups will leaflet factory staff as they arrive for work. The leaflets will inform them of our plans and non-violent intentions, and stress the efforts made by the local peace movement in looking for alternative, non-military uses for the factory.

The AWE Action Group which, with the support of CND Cymru, is organising this event, is currently visiting groups to help them mobilise for the day. We also plan to run an information stand and hold a workshop at the Nuclear Free Wales Festival in Swansea on February 25th.

AWE Action Group, 110 Connaught Road, Roath, Cardiff CF2 3PY. Helen 0222 228788 (Welsh speaker); Peter 0222 483340; Henrietta 0267 87 411; Roger 0633 64815.

## LLYTHYRAU — LETTERS

### Gwerin y Coed

Dear Friends,

Gwerin y Coed, The Woodcraft Folk in Wales, is the children's organisation which supports the Peace Movement and is International in its outlook. It is the real alternative for families not happy about other children's organisations and it is growing rapidly throughout Wales.

Camping is an essential part of Folk activities and we would like to hear from anyone who has a suitable site for our use. Sites are wanted in any part of Wales and I would ask anyone interested to contact John Gurr, Clydfa, 220 Merthyr Road, Pontypridd, tel. Pontypridd 409647.

Yours for Peace,
Sheila Rees, Cardiff.

### Clean Power?

Dear Campaign Wales,

There is a very important point that doesn't seem to come into your calculations. I would like to see it discussed and ventilated, not just pushed aside because it is so very inconvenient.

I heard Mrs Thatcher talking about the 'greenhouse effect', something that I am sure your affiliated "greens" know all about and which is, indeed, very alarming and a first priority for our consideration.

It is quite clear that the effects of using fossil fuels will increase the demand for nuclear power. How do you face this problem?

I see no immediate solution. Some say wait for nuclear fusion rather than fission; many of the bad effects of nuclear fission, i.e. radioactive waste, will not occur.

Please tell me, and the world, what is your suggested policy.

I know that you are concerned with nuclear *weapons*, but I think that you and many of your supporters are altogether against the use of nuclear power. I am myself very unhappy about it; it seems dangerous and the disposal of waste very unsatisfactory.

Yours sincerely,
Mary Chitty, Llangwnadl, Pwllheli.

### Global warming — our answer

The world's scientific community agrees that changes in the composition of the atmosphere are leading to an unprecedented and rapid increase in the mean global temperature.

Carbon dioxide and other gases produced by burning fossil fuels trap the sun's rays, producing the 'greenhouse effect'. Chlorofluorocarbons from aerosol sprays and plastic packaging are responsible for ozone depletion over the Antarctic and also contribute to atmospheric warming.

There are people (including Nicholas Ridley) who argue that nuclear power is the answer to our future electricity needs. However, nuclear power has a poor record of achievement in construction and operation and cannot be introduced fast enough to effect the environmental problems associated with fossil fuelled power stations.

Unless energy conservation and efficiency are introduced as widely as possible and as a matter of urgency, the increase in nuclear power needed to hold the carbon dioxide emissions roughly constant, would involve Britain commissioning 10 nuclear power plants each year — neither practical nor palatable!

Fossil fuels will continue to be necessary for many decades, but with more efficient and cleaner combustion. Small Combined Heat and Power schemes are essential, sited so that they may use the waste heat of electricity generation to warm adjacent housing and industrial areas.

Renewable sources of energy merely concentrate incoming energy, from wind, sun or tides, into forms useful to man. They contribute nothing to global warming. Eventually they may allow us to live in harmony with the environment.

According to Mrs Thatcher (Observer 15.1.89) more attention will be paid to energy conservation at home — the Prime Minister believes savings can be achieved by raising prices!

Campaign Wales

### Isolating Thatcher — a reply

Dear Campaign Wales,

Much of the discussion around CND Cymru's resolution to British Conference and Morgan Parry's thought — provoking article in the last issue of Campaign Wales have caused me concern.

The resolution itself calls for us to identify defence policy issues where the opposition parties take a similar line, put these together as a 'joint statement' and publicise it, thereby isolating the Conservatives on a range of peace and security questions.

Put like that, as one strand of our campaign; as one way of encouraging people to question the present government's position I believe that it is a useful tactic which we should all be able to support.

However, many of the strongest advocates of this policy seem to see it as having far more than tactical significance. They appear to believe that it should provide the underlying theme for our campaign strategy between now and the general election.

It may well be that part of my disquiet comes out of the political partisanship that Morgan warns against. Certainly I am worried about putting too much emphasis on a political agenda set by those parties, probably SLD and SDP, who wish to go slowest and least far along the disarmament road. And, as an active member of the Labour Party, I do not accept that we cannot get a majority of MPs committed to nuclear disarmament elected at the next general election.

I am disturbed at the thought of CND, of all organisations, providing intra party opponents with the "achievable programme" arguments for renouncing our unilateralism, especially at a time when there is mounting pressure for us to backtrack.

Of course, a vital part of our campaign involves working with and within the political parties, but at a time when people's perceptions of East-West relations and, therefore, of national and international security are fast changing, we should be persuading them to offer more imaginative and far reaching policies for peace. If we put too much reliance on the 'joint statement' approach, I fear we may be letting them off the hook.

Demonstrating Mrs Thatcher's isolated position in many areas of defence policy, both in the British political system and on the world stage, can I am sure help forward the campaign — but, please, let's not get into the coalition construction business!

Yours in peace,
Martin Caton